GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Materion Sgrinio

## Mae gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn newid





Bydd gwefan newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei lansio yn y Gwanwyn. Edrychwch ar y wefan newydd i weld yr hyn sydd wedi newid a ble i ddod o hyd i'r wybodaeth fydd ei hangen arnoch. **Mewngofnodwch i weld y wefan** (Saesneg yn unig) gan ddefnyddio'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair canlynol:

Enw defnyddiwr - phw

Cyfrinair - phwed2024

Mae tîm digidol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu eich adborth am y wefan newydd. Defnyddiwch y ffurflen adborth ar y wefan newydd i roi gwybod iddyn nhw beth yw eich barn.

## Strategaeth Tegwch yr Is-adran Sgrinio



Mae Strategaeth Tegwch yr Is-adran Sgrinio 2022 – 2025 yn cael ei hadnewyddu. Mae sefydliadau a gweithwyr iechyd proffesiynol o bob cwr o Gymru wedi bod i weithdai i roi eu hadborth ar yr hyn y gallai fod angen i ni ei gynnwys yn y strategaeth newydd. Mae'r Is-adran Sgrinio bellach yn ystyried yr adborth hwn. Bydd y strategaeth newydd ar gyfer 2026 – 2031 ar gael yn y gwanwyn.

Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru Diabetic Eye Screening Wales

## Fideo sgrinio llygaid diabetig

Mae fideo sgrinio llygaid diabetig newydd yn cael ei ddatblygu. Bydd y fideo hwn yn dangos yr hyn fydd yn digwydd pan fydd rhywun yn cymryd rhan mewn sgrinio llygaid diabetig, o'r gwahoddiad i'r canlyniadau. Bydd y fideo hwn ar gael yn y gwanwyn, gan ychwanegu at y fideos sydd ar gael ar dudalennau gwe'r adnoddau sgrinio.


## Animeiddiad Beth yw Sgrinio




I'r rhai ohonoch sy'n meddwl tybed beth yw sgrinio, mae animeiddiad fer ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain ar y gwefannau sgrinio. Mae'n esbonio sut mae prawf sgrinio'n chwilio am arwyddion cynnar o gyflwr iechyd mewn pobl sy'n teimlo'n dda. Mae dod o hyd i gyflwr yn gynnar yn rhoi'r siawns orau o roi triniaeth lwyddiannus i bobl.

Gallwch wylio'r **animeiddiad** a'i rhannu gyda'r bobl rydych chi'n eu cefnogi.

## Diweddariadau am y rhaglen



Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y penderfyniad i gyflwyno rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint genedlaethol yng Nghymru. Cafodd y penderfyniad hwn ei lywio gan brosiect cwmpasu a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2024-25. Dilynodd hyn gynllun peilot llwyddiannus yn ardal Gogledd Rhondda, a gyflawnwyd rhwng 2023-24.

Mae gwaith cynllunio ar y gweill ar gyfer gweithredu'r rhaglen newydd hon. Bydd gwaith ymgysylltu pellach â phartneriaid, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei gynnal i sicrhau bod y rhaglen sgrinio'r ysgyfaint, pan gaiff ei gweithredu, yn cael ei chynnig mewn ffordd ddiogel, gynaliadwy a theg.


Sgrinio Serfigol Cymru
Cervical Screening Wales

Yn ystod 2026, bydd Sgrinio Serfigol Cymru yn dechrau cynnig profion hunan-samplu serfigol i bobl nad ydynt yn mynd i apwyntiadau profion sgrinio serfigol pan gânt eu gwahodd, neu nad ydynt yn mynd iddynt yn aml pan gânt eu gwahodd. Mae hunan-samplu yn ffordd syml a phreifat i bobl gasglu eu sampl feirws papiloma dynol (HPV) serfigol eu hunain gartref, yn hytrach na chael sampl wedi'i chymryd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Bydd y gwasanaeth hunan-brofi newydd a'r prawf sgrinio serfigol (ceg y groth) arferol yn cael eu cynnig i bobl sy'n gymwys ar eu cyfer, gan roi ffordd haws a mwy hyblyg i bobl helpu i atal canser ceg y groth. Wrth i'r newid hwn gael ei roi ar waith, bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan .


## Adnoddau sgrinio hygyrch newydd ar gael

Mae'r Is-adran Sgrinio yn parhau i ehangu'r ystod o adnoddau hygyrch sydd ar gael.

Mae fersiwn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) o'r daflen 'Eich Helpu i Benderfynu' ar Ymlediadau Aortig Abdomenol (YAA) ar gael erbyn hyn. Nod y fideo hwn yw cefnogi'r gymuned F/fyddar i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â chael prawf sgrinio YAA.




Mae'r fideo i'w weld ar dudalennau gwe YAA o dan yr adran Adnoddau.




Mae'r daflen Hawdd ei Deall 'Ynglŷn â'r prawf ar eich bron' wedi'i diweddaru. Mae'r daflen hon yn defnyddio geiriau syml a delweddau cynhwysol i esbonio'r hyn fydd yn digwydd pan gewch eich gwahodd i gael prawf sgrinio'r fron.

Gallwch ddefnyddio a rhannu'r adnoddau hyn gyda'r cymunedau rydych chi'n eu cefnogi.



# Addysg yn y gymuned

Ewch i dudalen we [Hyfforddiant ac Addysg yn y Gymuned] ar gyfer rhestr o ddyddiadau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Sgrinio sydd ar ddod. Cliciwch ar y ffurflen archebu i ddewis eich dyddiad a chwblhewch y ffurflen fer. Mae'r hyfforddiant ar-lein hwn ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a llesiant ac sydd â rôl weithredol yn ei hyrwyddo. Drwy wneud yr hyfforddiant, byddwch yn dysgu mwy am raglenni sgrinio GIG Cymru a byddwch yn gallu cefnogi sgyrsiau ynghylch sgrinio o fewn eich cymuned.

# Ymgyrchoedd cenedlaethol


Calendr Ymgyrch 2026
Iechyd Sgrinio

**Ionawr**
Mis Ymwybyddiaeth Canser Ceg y Groth
Sgrinio Serfigol Cymru

**Mehefin**
Diwrnod Rhyngwladol Sgrinio Newyddenedigol
29 Mehefin
Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-Anedig Cymru

**Ebrill**
Mis Ymwybyddiaeth Canser y Coluddyn
Bowel Cancer UK (Saesneg yn unig)

**Hydref**
Mis Ymwybyddiaeth Canser y Fron
Breast Cancer Now (Saesneg yn unig)

**Mehefin**
Wythnos Ymwybyddiaeth Diabetes
8 - 14 Mehefin Diabetes UK (Saesneg yn unig)

Wythnos Iechyd Dynion
8-14 Mehefin Men's Health Forum (Saesneg yn unig)

Wythnos Ymwybyddiaeth o Sgrinio Serfigol
15 - 21 Mehefin
Sgrinio Serfigol Cymru

**Tachwedd**
Diwrnod Diabetes y Byd
14 Tachwedd
Diabetes UK Cymru (Saesneg yn unig)

Mae mwy o ymgyrchoedd iechyd ar gael yma: Calendr o ymgyrchoedd cenedlaethol / NHS Employers (Nid yw'r ddolen ar gael yn Gymraeg yn anffodus)

Mae **Calendr Ymgyrchoedd** 2026 bellach ar gael. Edrychwch ar y calendr i'ch helpu i gynllunio eich gweithgareddau ymwybyddiaeth o sgrinio ar gyfer 2026.

Gallwch gefnogi'r ymgyrchoedd drwy wneud y canlynol:

- Hoffi a rhannu postiadau cyfryngau cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar **Facebook** ac **Instagram**.
- Lawrlwytho a rhannu **adnoddau sgrinio** .
- Arddangos posteri sgrinio a rhoi cardiau z mewn digwyddiadau i gefnogi sgyrsiau sgrinio.

I archebu stociau bach o adnoddau, cysylltwch â'r **Tîm Ymgysylltu â Sgrinio** .




# Arolwg Materion Sgrinio

Anfonir y bwletin Materion Sgrinio atoch ddwywaith y flwyddyn. Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am y bwletin drwy gwblhau ein **harolwg** byr erbyn **13/04/26**. Mae eich adborth yn bwysig i ni.

## Cysylltu â ni

Cysylltwch â'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio os:

- oes gennych sylwadau neu awgrymiadau am y bwletin hwn;
- hoffech drafod gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o sgrinio; neu os
- hoffech rannu eich profiad o sgrinio. Gall hyn helpu eraill sy'n ystyried manteisio ar y cynnig sgrinio.

**ymgysylltu.sgrinio@wales.nhs.uk**

**Am ragor o wybodaeth am raglenni sgrinio'r GIG a gynigir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ewch i'r wefan.**

# Screening Matters




## The Public Health Wales website is changing

The new Public Health Wales website will be launched in the spring. Check out the new website to see what has changed and where to find the information you need. **Login to view the site** using the following username and password:
Username - phw
Password - phwed2024

The Public Health Wales digital team welcomes your feedback about the new site. Please use the feedback form on the new website to let them know what you think.

## Screening Division Equity Strategy



The Screening Division 2022 – 2025 Equity Strategy is being refreshed. Organisations and health professionals from across Wales have attended workshops to give their feedback on what we may need to include in the new strategy. Screening Division is now considering this feedback. The new 2026 – 2031 strategy will be available in the spring.

Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
Diabetic Eye Screening Wales

## Diabetic eye screening video

A new diabetic eye screening video is under development. This video will show what will happen when someone takes part in diabetic eye screening, from invitation to results. This video will be available in the spring, adding to the videos that are available on the screening resources webpages.


## What is Screening animation




For people who are wondering what screening is, a short animation is available in Welsh, English and BSL on the screening websites. It explains how screening looks for early signs of a health condition in people who feel well. Finding a condition early gives people the best chance of successful treatment.

You can watch the animation and share it with the people you support.

# Programme updates



In June 2025, Welsh Government announced the decision to introduce a national lung cancer screening programme in Wales. This decision was informed by a scoping project undertaken by Public Health Wales during 2024-25. This followed a successful pilot in the North Rhondda area, delivered between 2023-24.


Planning is now underway for the implementation of this new programme. Further engagement with partners, stakeholders and service users will be carried out to ensure that lung screening, when implemented, is offered in a safe, sustainable and equitable way.

Sgrinio Serfigol Cymru
Cervical Screening Wales

During 2026, Cervical Screening Wales will start offering cervical self-sampling tests to people who rarely or never attend cervical screening when invited. Self-sampling is a simple and private way for people to collect their own cervical human papillomavirus (HPV) sample at home, rather than having a sample taken by a healthcare professional. The new self-test will be offered to people who are eligible as well as the usual cervical screening (smear) test, giving people an easier and more flexible way to help prevent cervical cancer. As this change is implemented, more information will be available on the **website**.


# New screening accessible resources available

Screening Division continues to extend the range of accessible resources available.




A British Sign Language (BSL) version of the Abdominal Aortic Aneurysm (AAA) 'Helping you Decide' leaflet is now available. This video aims to support the D/deaf community to make informed choices about taking part in AAA screening.

The video can be found on the AAA web pages under the **Resources** section.




The '**About your breast test**' Easy Read leaflet has been updated. This leaflet uses simple words and inclusive images to explain what will happen when you are invited for breast screening.

You can use and share these resources with the communities you support.



# Community education

Visit the [Community Training and Education](#) webpage for a list of upcoming Screening Awareness training dates. Click on the booking form to select your preferred date and complete the short form. This online training is for people who work and have an active role promoting health and wellbeing. By attending, you will learn more about the NHS screening programmes in Wales and be able to support screening conversations within your community.

# National campaigns

The 2026 **Campaign Calendar** is now available. Check out the calendar to help you plan your screening awareness activities for 2026.

You can support campaigns by:

- Liking and sharing the Public Health Wales social media posts on **Facebook** and **Instagram**.
- Downloading and sharing **screening resources**.
- Displaying screening posters and giving out z cards at events to support screening conversations.



Screening Health Campaign Calendar 2026

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**January**
Cervical Cancer Awareness Month
Cervical Screening Wales

**June**
International Neonatal Screening Day
29 June
Newborn Bloodspot Screening Wales

**April**
Bowel Cancer Awareness Month
Bowel Cancer UK

**October**
Breast Cancer Awareness Month
Breast Cancer Now

**June**
Diabetes Awareness Week
8 - 14 June
Diabetes UK

Men's Health Week
8 - 14 June
Men's Health Forum

Cervical Screening Awareness Week
15 - 21 June
Cervical Screening Wales

**November**
World Diabetes Day
14 November
Diabetes UK Cymru

For more health campaigns visit: Calendar of national campaigns | NHS Employers

To order small stocks of resources, get in touch with the **Screening Engagement Team**.




# Screening Matters survey

The Screening Matters bulletin is sent to you twice a year. Let us know what you think about the bulletin by completing our short **survey** by **13/04/26.**
Your feedback is important to us.

## Getting in touch

Contact the Screening Engagement Team if you:

- have any comments or suggestions about this bulletin;
- would like to discuss working in partnership to raise awareness of screening; or
- would like to share your experience of screening. This can help others who are thinking about taking up their screening offer.

**screening.engagement@wales.nhs.uk**

**For further information about NHS screening programmes offered by Public Health Wales visit the website.**